1. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Gwneud Penderfyniadau Gwell a Thecach

A. Y Cynnig

1. Teitl y cynnig

Gwneud yr Athrofa Dysgu Cymraeg ("yr Athrofa") yn ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

2. Beth mae eich cynnig yn ceisio ei gyflawni?

Bydd y cynnig hwn yn gwneud yr Athrofa'n ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Athrofa roi sylw dyladwy i ystyriaethau cydraddoldeb penodol wrth iddi arfer ei swyddogaethau a gwneud penderfyniadau.

3. Pryd dechreuwyd gweithio ar y cynnig?

Ionawr 2026

4. Pa sefydliadau, grwpiau neu gymunedau mae'r cynnig yn debygol o effeithio arnynt?

Yr Athrofa a'i rhwydwaith o ddarparwyr dysgu.

Dysgwyr a fydd yn dysgu Cymraeg (a elwir yn ddarpariaeth "Dysgu Cymraeg") gyda'r Athrofa, yn cynnwys pobl ifanc, dysgwyr mewn gweithleoedd a lleoliadau cymunedol, a'r gweithlu addysg. Efallai hefyd y bydd y cynnig yn effeithio ar y rhai sy'n ystyried dysgu Cymraeg yn ogystal â'r rhai a fydd yn elwa'n anuniongyrchol ar weithgareddau'r Athrofa, yn cynnwys ysgolion.

Cyflogwyr a gweithleoedd ar draws amrediad o sectorau, gydag effaith arbennig ar y sectorau Gofal Plant, Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac Addysg.

B. Yr effaith ar bobl mewn grwpiau gwarchodedig, ac ymgysylltu â'r bobl hynny

Oedran

1. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw'r ffynhonnell? Dylid cynnwys unrhyw ganfyddiadau sydd wedi deillio o waith ymgysylltu.

Cyhoeddir data blynyddol am y ddarpariaeth Dysgu Cymraeg ar ddiwedd y flwyddyn academaidd. Mae'r data hwn yn cynnwys niferoedd y dysgwyr unigryw sy'n cymryd rhan yn y ddarpariaeth Dysgu Cymraeg, wedi'u hollti yn ôl categorïau oedran. Yn 2024-2025, roedd 3,290 o'r dysgwyr a oedd yn dilyn cyrsiau Dysgu Cymraeg yn 65 oed ac yn hŷn.

Darganfu ymchwil gan y *Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol* fod Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wedi helpu awdurdodau i ddeall yn well beth yw anghenion pobl â nodweddion gwarchodedig wrth iddynt wneud penderfyniadau. Darganfuwyd bod y penderfyniadau'n cael eu seilio'n fwy ar dystiolaeth, a bod awdurdodau'n defnyddio amcanion cydraddoldeb, asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, cynlluniau gweithredu a phrosesau ymgynghori yn fynych er mwyn sicrhau bod materion cydraddoldeb yn cael eu hystyried wrth ddatblygu polisïau a gwasanaethau.

2. A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?

Er bod adroddiad y *Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol* wedi darganfod bod Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wedi cael effaith gadarnhaol ar brosesau gwneud penderfyniadau, yn aml roedd effeithiau'r amcanion cydraddoldeb yn anodd eu mesur ac ni fu modd i bob awdurdod gyflwyno tystiolaeth gadarn am y canlyniadau tymor hwy sy'n deillio o'u hamcanion cydraddoldeb. Daethpwyd i'r casgliad bod angen cynnal rhagor o ymchwil er mwyn pennu i ba raddau mae gosod amcanion cydraddoldeb yn gwella canlyniadau grwpiau gwarchodedig yn uniongyrchol.

3. Â phwy ydych chi wedi ymgysylltu, pam a sut?

Rydym wedi ymgysylltu â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ynglŷn â'r cynnig i wneud yr Athrofa'n ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Hefyd, rydym wedi cynnal trafodaethau gyda Chadeirydd yr Athrofa a Phrif Weithredwr y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

4. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

Nid yw'r dystiolaeth wedi effeithio'n uniongyrchol ar y cynnig. Mae Adran 41 o Ddeddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 ("y Ddeddf") yn ei gwneud yn ofynnol i'r Athrofa hyrwyddo cyfle cyfartal mewn dysgu Cymraeg i ddysgwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Hefyd, bydd y ddyletswydd newydd hon yn adeiladu ar y gwaith a wneir ar hyn o bryd gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol trwy gyfrwng ei Strategaeth Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Gwrth-hiliaeth.

Wrth ddatblygu cynigion ar gyfer yr Athrofa, y bwriad bob amser oedd y byddai'r corff newydd yn ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Gwyddom na chaiff dysgwyr a chanddynt nodweddion gwarchodedig penodol eu cynrychioli'n ddigonol yn y sector Dysgu Cymraeg. Mae'r ddyletswydd o dan Adran 41 o'r Ddeddf yn adlewyrchu pa mor bwysig yw cael sector Dysgu Cymraeg sy'n diwallu'r gwahanol anghenion sydd gan bobl dros oedran ysgol gorfodol, yn cynnwys pobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Bydd Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn cynnig fframwaith hirdymor a fydd yn cynorthwyo'r Athrofa i wneud penderfyniadau da, gan sicrhau y bydd yr effeithiau posibl a gaiff ei phenderfyniadau ar wahanol unigolion a chymunedau yn cael eu pennu a'u hystyried yn briodol fel rhan o'r

broses benderfynu. Hefyd, bydd yn ofynnol i'r Athrofa fonitro'r effaith a gaiff ei gweithgareddau a'i phenderfyniadau.

5. Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?

Disgwylir i'r cynnig gael effaith gadarnhaol ar bobl o bob oedran. Ysgogir y cynnig gan ein huchelgais i sicrhau bod y ddarpariaeth Dysgu Cymraeg yn diwallu anghenion gwahanol bobl, yn cynnwys pobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Gan fod oedran yn nodwedd warchodedig, bydd angen i'r Athrofa ystyried y modd mae ei phenderfyniadau, ei pholisïau a'i harferion yn effeithio ar bobl o bob oedran. Dylai hynny gynorthwyo'r Athrofa i wneud penderfyniadau gwell wrth iddi arfer ei swyddogaethau, yn cynnwys y trefniadau a wna ar gyfer galluogi pobl i ddysgu Cymraeg a gwella lefelau gallu yn y Gymraeg ymhlith pobl sydd dros oedran ysgol gorfodol. Hefyd, bydd yn sicrhau bod yr Athrofa'n ystyried oedran wrth iddi ddatblygu ei Chynlluniau Ymgysylltu â Dysgwyr a'i Chynlluniau Diogelu Dysgwyr.

6. Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i wella effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?

Trwy wneud yr Athrofa'n ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, dylid gallu sicrhau na fydd yna unrhyw effeithiau negyddol ar bobl sydd mewn grwpiau gwarchodedig – yn rhinwedd ei natur, bwriad y polisi yw esgor ar effaith gadarnhaol. Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y dyletswyddau penodol a gynhwysir yn Nyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn cael eu hatgyfnerthu trwy gyfrwng ei chytundeb fframwaith gyda'r Athrofa; yn cynnwys cyhoeddi amcanion cydraddoldeb a gwybodaeth am gydymffurfio. Byddwn hefyd yn sicrhau bod llythyrau grantiau blynyddol yn cynnwys targedau sy'n gysylltiedig ag amcanion cydraddoldeb, ynghyd â gofyniad i sefydlu trefniadau sicrhau ansawdd cadarn a threfniadau hunanwerthuso ar gyfer y rhwydwaith ehangach o ddarparwyr.

Ymhellach, byddwn yn annog yr Athrofa i adeiladu ar y profiadau a gafwyd a'r gwersi a ddysgwyd yn y sector addysg drydyddol ehangach. Bydd adolygiad ôl-weithredu'r Ddeddf yn ystyried y modd mae'r Ddeddf wedi cynyddu mynediad at ddarpariaeth Dysgu Cymraeg ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

Anabledd

7. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Dylid cynnwys unrhyw ganfyddiadau sydd wedi deillio o waith ymgysylltu.

Darganfu ymchwil gan y *Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol* fod Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wedi helpu awdurdodau i ddeall yn well beth yw anghenion pobl â nodweddion gwarchodedig wrth wneud penderfyniadau. Darganfuwyd bod y penderfyniadau'n cael eu seilio'n fwy ar dystiolaeth, a bod awdurdodau'n defnyddio amcanion cydraddoldeb, asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, cynlluniau gweithredu a phrosesau ymgynghori yn

fynych er mwyn sicrhau bod materion cydraddoldeb yn cael eu hystyried wrth ddatblygu polisïau a gwasanaethau.

8. A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?

Er bod adroddiad y *Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol* wedi darganfod bod Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wedi cael effaith gadarnhaol ar brosesau gwneud penderfyniadau, yn aml roedd effeithiau'r amcanion cydraddoldeb ar ganlyniadau hirdymor i bobl anabl yn anodd eu mesur ac ni fu modd i bob awdurdod gyflwyno tystiolaeth gadarn yn y maes hwn.

9. Â phwy ydych chi wedi ymgysylltu, pam a sut?

Rydym wedi ymgysylltu â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ynglŷn â'r cynnig i wneud yr Athrofa'n ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Hefyd, rydym wedi cynnal trafodaethau gyda Chadeirydd yr Athrofa a Phrif Weithredwr y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

10. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

Nid yw'r dystiolaeth wedi effeithio'n uniongyrchol ar y cynnig. Mae Adran 41 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Athrofa hyrwyddo cyfle cyfartal mewn dysgu Cymraeg i ddysgwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Hefyd, bydd y ddyletswydd newydd hon yn adeiladu ar y gwaith a wneir ar hyn o bryd gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol trwy gyfrwng ei Strategaeth Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Gwrth-hiliaeth.

Wrth ddatblygu cynigion ar gyfer yr Athrofa, y bwriad bob amser oedd y byddai'r corff newydd yn ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Gwyddom na chaiff dysgwyr a chanddynt nodweddion gwarchodedig penodol eu cynrychioli'n ddigonol yn y sector Dysgu Cymraeg. Mae'r ddyletswydd o dan Adran 41 o'r Ddeddf yn adlewyrchu pa mor bwysig yw cael sector Dysgu Cymraeg sy'n diwallu'r gwahanol anghenion sydd gan bobl dros oedran ysgol gorfodol, yn cynnwys pobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

Bydd Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn cynnig fframwaith hirdymor a fydd yn cynorthwyo'r Athrofa i wneud penderfyniadau da, gan sicrhau y bydd yr effeithiau posibl a gaiff ei phenderfyniadau ar wahanol unigolion a chymunedau yn cael eu pennu a'u hystyried yn briodol fel rhan o'r broses benderfynu. Hefyd, bydd yn ofynnol i'r Athrofa fonitro'r effaith a gaiff ei gweithgareddau a'i phenderfyniadau.

11. Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?

Disgwylir i'r cynnig gael effaith gadarnhaol ar bobl anabl o bod oedran. Ysgogir y cynnig gan ein huchelgais i sicrhau bod y ddarpariaeth Dysgu Cymraeg yn diwallu anghenion gwahanol bobl, yn cynnwys pobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Gan fod anabledd yn nodwedd warchodedig, bydd angen i'r Athrofa

ystyried y modd mae ei phenderfyniadau, ei pholisïau a'i harferion yn effeithio ar bobl anabl. Dylai hynny gynorthwyo'r Athrofa i wneud penderfyniadau gwell wrth iddi arfer ei swyddogaethau, yn cynnwys y trefniadau a wna ar gyfer galluogi pobl anabl i ddysgu Cymraeg (a darparu adnoddau hygyrch i ategu'r dysgu). Hefyd, bydd yn sicrhau bod yr Athrofa'n ystyried anabledd wrth iddi ddatblygu ei Chynlluniau Ymgysylltu â Dysgwyr a'i Chynlluniau Diogelu Dysgwyr.

12. Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i wella effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?

Trwy wneud yr Athrofa'n ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, dylid gallu sicrhau na fydd yna unrhyw effeithiau negyddol ar bobl sydd mewn grwpiau gwarchodedig – yn rhinwedd ei natur, bwriad y polisi yw esgor ar effaith gadarnhaol. Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y dyletswyddau penodol a gynhwysir yn Nyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn cael eu hatgyfnerthu trwy gyfrwng ei chytundeb fframwaith gyda'r Athrofa; yn cynnwys cyhoeddi amcanion cydraddoldeb a gwybodaeth am gydymffurfio. Byddwn hefyd yn sicrhau bod llythyrau grantiau blynyddol yn cynnwys targedau sy'n gysylltiedig ag amcanion cydraddoldeb, ynghyd â gofyniad i sefydlu trefniadau sicrhau ansawdd cadarn a threfniadau hunanwerthuso ar gyfer y rhwydwaith ehangach o ddarparwyr.

Ymhellach, byddwn yn annog yr Athrofa i adeiladu ar y profiadau a gafwyd a'r gwersi a ddysgwyd yn y sector addysg drydyddol ehangach, ynghyd â phennu a rhannu arferion effeithiol o ran cynorthwyo dysgwyr ag anableddau. Bydd adolygiad ôl-weithredu'r Ddeddf yn ystyried y modd mae'r Ddeddf wedi cynyddu mynediad at ddarpariaeth Dysgu Cymraeg ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

Hil

13. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Dylid cynnwys unrhyw ganfyddiadau sydd wedi deillio o waith ymgysylltu.

Cyhoeddir data blynyddol am y ddarpariaeth Dysgu Cymraeg ar ddiwedd y flwyddyn academaidd. Mae'r data hwn yn cynnwys niferoedd y dysgwyr unigryw sy'n cymryd rhan yn y ddarpariaeth Dysgu Cymraeg, wedi'u hollti yn ôl ethnigrwydd. Yn 2024-2025, roedd 690 o'r dysgwyr a oedd yn dilyn cyrsiau Dysgu Cymraeg yn dod o gefndiroedd ethnig leiafrifol.

Darganfu ymchwil gan y *Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol* fod Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wedi helpu awdurdodau i ddeall yn well beth yw anghenion pobl â nodweddion gwarchodedig wrth wneud penderfyniadau. Darganfuwyd bod y penderfyniadau'n cael eu seilio'n fwy ar dystiolaeth, a bod awdurdodau'n defnyddio amcanion cydraddoldeb, asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, cynlluniau gweithredu a phrosesau ymgynghori yn fynych er mwyn sicrhau bod materion cydraddoldeb yn cael eu hystyried wrth ddatblygu polisïau a gwasanaethau.

14. A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?

Er bod adroddiad y *Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol* wedi darganfod bod Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wedi cael effaith gadarnhaol ar brosesau gwneud penderfyniadau, yn aml roedd effeithiau'r amcanion cydraddoldeb yn anodd eu mesur ac ni fu modd i bob awdurdod gyflwyno tystiolaeth gadarn am y canlyniadau tymor hwy sy'n deillio o'u hamcanion cydraddoldeb. Daethpwyd i'r casgliad bod angen cynnal rhagor o ymchwil er mwyn pennu i ba raddau mae gosod amcanion cydraddoldeb yn gwella canlyniadau grwpiau gwarchodedig yn uniongyrchol.

15. Â phwy ydych chi wedi ymgysylltu, pam a sut?

Rydym wedi ymgysylltu â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ynglŷn â'r cynnig i wneud yr Athrofa'n ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Hefyd, rydym wedi cynnal trafodaethau gyda Chadeirydd yr Athrofa a Phrif Weithredwr y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

16. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

Nid yw'r dystiolaeth wedi effeithio'n uniongyrchol ar y cynnig. Mae Adran 41 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Athrofa hyrwyddo cyfle cyfartal mewn dysgu Cymraeg i ddysgwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Hefyd, bydd y ddyletswydd newydd hon yn adeiladu ar y gwaith a wneir ar hyn o bryd gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol trwy gyfrwng ei Strategaeth Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Gwrth-hiliaeth.

Wrth ddatblygu cynigion ar gyfer yr Athrofa, y bwriad bob amser oedd y byddai'r corff newydd yn ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Gwyddom na chaiff dysgwyr o gefndiroedd ethnig leiafrifol eu cynrychioli'n ddigonol yn y sector Dysgu Cymraeg – fel dysgwyr nac yn y gweithlu. Mae'r ddyletswydd o dan Adran 41 o'r Ddeddf yn adlewyrchu pa mor bwysig yw cael sector Dysgu Cymraeg sy'n diwallu'r gwahanol anghenion sydd gan bobl dros oedran ysgol gorfodol, yn cynnwys pobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Bydd Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn cynnig fframwaith hirdymor a fydd yn cynorthwyo'r Athrofa i wneud penderfyniadau da, gan sicrhau y bydd yr effeithiau posibl a gaiff ei phenderfyniadau ar wahanol unigolion a chymunedau yn cael eu pennu a'u hystyried yn briodol fel rhan o'r broses benderfynu. Hefyd, bydd yn ofynnol i'r Athrofa fonitro'r effaith a gaiff ei gweithgareddau a'i phenderfyniadau.

17. Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?

Disgwylir i'r cynnig gael effaith gadarnhaol ar bobl o wahanol gefndiroedd ethnig leiafrifol. Ysgogir y cynnig gan ein huchelgais i sicrhau bod y ddarpariaeth Dysgu Cymraeg yn diwallu anghenion gwahanol bobl, yn cynnwys pobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Gan fod hil yn nodwedd warchodedig, bydd angen i'r Athrofa ystyried y modd mae ei phenderfyniadau, ei pholisïau a'i harferion yn effeithio ar bobl o wahanol gefndiroedd ethnig leiafrifol. Dylai hynny gynorthwyo'r Athrofa i wneud penderfyniadau gwell wrth iddi arfer ei swyddogaethau, yn

cynnwys y trefniadau a wna ar gyfer galluogi pobl i ddysgu Cymraeg, a datblygu'r cwricwlwm ac adnoddau ar gyfer ategu dysgu. Hefyd, bydd yn sicrhau bod yr Athrofa'n cymryd camau i sicrhau bod llais y dysgwyr a phrofiad bywyd yn llywio penderfyniadau polisi ynglŷn â'i gwaith.

18. Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i wella effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?

Trwy wneud yr Athrofa'n ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, dylid gallu sicrhau na fydd yna unrhyw effeithiau negyddol ar bobl sydd mewn grwpiau gwarchodedig – yn rhinwedd ei natur, bwriad y polisi yw esgor ar effaith gadarnhaol. Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y dyletswyddau penodol a gynhwysir yn Nyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn cael eu hatgyfnerthu trwy gyfrwng ei chytundeb fframwaith gyda'r Athrofa; yn cynnwys cyhoeddi amcanion cydraddoldeb a gwybodaeth am gydymffurfio. Byddwn hefyd yn sicrhau bod llythyrau grantiau blynyddol yn cynnwys targedau sy'n gysylltiedig ag amcanion cydraddoldeb, ynghyd â gofyniad i sefydlu trefniadau sicrhau ansawdd cadarn a threfniadau hunanwerthuso ar gyfer y rhwydwaith ehangach o ddarparwyr.

Disgwylir i'r Athrofa adeiladu ar brofiad ac adnoddau'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol o ran cynorthwyo'r rhai sy'n dod o wahanol gefndiroedd ethnig leiafrifol, y rhai sy'n newydd i Gymru a'r rhai y mae eu Saesneg yn gyfyngedig. Bydd modd i'r Athrofa adeiladu ar y gwaith hwn i gynorthwyo cynllunwyr addysg ac ysgolion i bennu a goresgyn unrhyw rwystrau a allai effeithio ar rai grwpiau o ddysgwyr wrth ddysgu Cymraeg, gan fynd ati ar yr un pryd i ddatblygu darpariaeth Dysgu Cymraeg ymatebol ac effeithiol i bawb.

Ymhellach, byddwn yn annog yr Athrofa i adeiladu ar y profiadau a gafwyd a'r gwersi a ddysgwyd yn y sector addysg drydyddol ehangach, ynghyd â chymryd camau i wella cynrychiolaeth ar ei Bwrdd ac ymhlith y gweithlu Dysgu Cymraeg. Bydd adolygiad ôl-weithredu'r Ddeddf yn ystyried y modd mae'r Ddeddf wedi cynyddu mynediad at ddarpariaeth Dysgu Cymraeg ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

Crefydd, Cred neu Ddiffyg Cred

19. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw'r ffynhonnell? Dylid cynnwys unrhyw ganfyddiadau sydd wedi deillio o waith ymgysylltu.

Nid yw trefniadau cyfredol ar gyfer casglu data gogyfer y ddarpariaeth Dysgu Cymraeg yn cynnwys data am grefydd na chred. Ni chesglir yr wybodaeth hon yn rheolaidd yn y sector ôl-16.

Darganfu ymchwil gan y *Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol* fod Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wedi helpu awdurdodau i ddeall yn well beth yw anghenion pobl â nodweddion gwarchodedig wrth wneud penderfyniadau. Darganfuwyd bod y penderfyniadau'n cael eu seilio'n fwy ar dystiolaeth, a bod awdurdodau'n defnyddio amcanion cydraddoldeb, asesiadau

o'r effaith ar gydraddoldeb, cynlluniau gweithredu a phrosesau ymgynghori yn fynych er mwyn sicrhau bod materion cydraddoldeb yn cael eu hystyried wrth ddatblygu polisïau a gwasanaethau.

20. A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?

Er bod adroddiad y *Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol* wedi darganfod bod Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wedi cael effaith gadarnhaol ar brosesau gwneud penderfyniadau, yn aml roedd effeithiau'r amcanion cydraddoldeb yn anodd eu mesur ac ni fu modd i bob awdurdod gyflwyno tystiolaeth gadarn am y canlyniadau tymor hwy sy'n deillio o'u hamcanion cydraddoldeb. Daethpwyd i'r casgliad bod angen cynnal rhagor o ymchwil er mwyn pennu i ba raddau mae gosod amcanion cydraddoldeb yn gwella canlyniadau ar gyfer pobl â gwahanol grefyddau, credau neu ddiffyg credau.

21. Â phwy ydych chi wedi ymgysylltu, pam a sut?

Rydym wedi ymgysylltu â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ynglŷn â'r cynnig i wneud yr Athrofa'n ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Hefyd, rydym wedi cynnal trafodaethau gyda Chadeirydd yr Athrofa a Phrif Weithredwr y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

22. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

Nid yw'r dystiolaeth wedi effeithio'n uniongyrchol ar y cynnig. Mae Adran 41 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Athrofa hyrwyddo cyfle cyfartal mewn dysgu Cymraeg i ddysgwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Hefyd, bydd y ddyletswydd newydd hon yn adeiladu ar y gwaith a wneir ar hyn o bryd gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol trwy gyfrwng ei Strategaeth Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Gwrth-hiliaeth.

Wrth ddatblygu cynigion ar gyfer yr Athrofa, y bwriad bob amser oedd y byddai'r corff newydd yn ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Mae'r ddyletswydd o dan Adran 41 o'r Ddeddf yn adlewyrchu pa mor bwysig yw cael sector Dysgu Cymraeg sy'n diwallu'r gwahanol anghenion sydd gan bobl dros oedran ysgol gorfodol, yn cynnwys pobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Bydd Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn cynnig fframwaith hirdymor a fydd yn cynorthwyo'r Athrofa i wneud penderfyniadau da, gan sicrhau y bydd yr effeithiau posibl a gaiff ei phenderfyniadau ar wahanol unigolion a chymunedau yn cael eu pennu a'u hystyried yn briodol fel rhan o'r broses benderfynu. Hefyd, bydd yn ofynnol i'r Athrofa fonitro'r effaith a gaiff ei gweithgareddau a'i phenderfyniadau.

23. Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?

Disgwylir i'r cynnig gael effaith gadarnhaol ar bobl â gwahanol grefyddau, credau neu ddiffyg cred. Ysgogir y cynnig gan ein huchelgais i sicrhau bod y ddarpariaeth Dysgu Cymraeg yn diwallu anghenion gwahanol bobl, yn cynnwys pobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

Gan fod crefydd, cred neu ddiffyg cred yn nodwedd warchodedig, bydd angen i'r Athrofa ystyried y modd mae ei phenderfyniadau, ei pholisïau a'i harferion yn effeithio ar bobl o wahanol gefndiroedd ethnig leiafrifol. Dylai hynny gynorthwyo'r Athrofa i wneud penderfyniadau gwell wrth iddi arfer ei swyddogaethau, yn cynnwys y trefniadau a wna ar gyfer galluogi pobl i ddysgu Cymraeg, datblygu'r cwricwlwm ac adnoddau sy'n ategu dysgu. Hefyd, bydd yn sicrhau bod yr Athrofa'n cymryd camau i sicrhau bod llais y dysgwyr a phrofiad bywyd yn llywio penderfyniadau polisi ynglŷn â'i gwaith.

24. Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i wella effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?

Trwy wneud yr Athrofa'n ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, dylid gallu sicrhau na fydd yna unrhyw effeithiau negyddol ar bobl sydd mewn grwpiau gwarchodedig – yn rhinwedd ei natur, bwriad y polisi yw esgor ar effaith gadarnhaol. Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y dyletswyddau penodol a gynhwysir yn Nyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn cael eu hatgyfnerthu trwy gyfrwng ei chytundeb fframwaith gyda'r Athrofa; yn cynnwys cyhoeddi amcanion cydraddoldeb a gwybodaeth am gydymffurfio. Byddwn hefyd yn sicrhau bod llythyrau grantiau blynyddol yn cynnwys targedau sy'n gysylltiedig ag amcanion cydraddoldeb, ynghyd â gofyniad i sefydlu trefniadau sicrhau ansawdd cadarn a threfniadau hunanwerthuso ar gyfer y rhwydwaith ehangach o ddarparwyr.

Ymhellach, byddwn yn annog yr Athrofa i adeiladu ar y profiadau a gafwyd a'r gwersi a ddysgwyd yn y sector addysg drydyddol ehangach. Bydd adolygiad ôl-weithredu'r Ddeddf yn ystyried y modd mae'r Ddeddf wedi cynyddu mynediad at ddarpariaeth Dysgu Cymraeg ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

Rhyw

25. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw'r ffynhonnell? Dylid cynnwys unrhyw ganfyddiadau sydd wedi deillio o waith ymgysylltu.

Mae trefniadau cyfredol ar gyfer casglu data gogyfer y ddarpariaeth Dysgu Cymraeg yn cynnwys data am ryw.

Darganfu ymchwil gan y *Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol* fod Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wedi helpu awdurdodau i ddeall yn well beth yw anghenion pobl â nodweddion gwarchodedig wrth wneud penderfyniadau. Darganfuwyd bod y penderfyniadau'n cael eu seilio'n fwy ar dystiolaeth, a bod awdurdodau'n defnyddio amcanion cydraddoldeb, asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, cynlluniau gweithredu a phrosesau ymgynghori yn fynych er mwyn sicrhau bod materion cydraddoldeb yn cael eu hystyried wrth ddatblygu polisïau a gwasanaethau.

26. A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?

Mae data am nifer y dynion a'r menywod sy'n dilyn cyrsiau Dysgu Cymraeg ar gael, ond ni chaiff ei gyhoeddi ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd, nid oes gennym unrhyw ddata am gyfansoddiad y gweithlu Dysgu Cymraeg.

Gan fod yr Athrofa'n gorff newydd, nid oes gwybodaeth ar gael ar hyn o bryd am y bwlch cyflog rhywedd. Mae nifer debygol y gweithwyr (h.y. llai na 150) yn golygu na fydd yr Athrofa o dan ddyletswydd i gyhoeddi data am y bwlch cyflog rhywedd.

Er bod adroddiad y *Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol* wedi darganfod bod Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wedi cael effaith gadarnhaol ar brosesau gwneud penderfyniadau, yn aml roedd effeithiau'r amcanion cydraddoldeb yn anodd eu mesur ac ni fu modd i bob awdurdod gyflwyno tystiolaeth gadarn am y canlyniadau tymor hwy sy'n deillio o'u hamcanion cydraddoldeb. Daethpwyd i'r casgliad bod angen cynnal rhagor o ymchwil er mwyn pennu i ba raddau mae gosod amcanion cydraddoldeb yn gwella canlyniadau grwpiau gwarchodedig yn uniongyrchol.

27. Â phwy ydych chi wedi ymgysylltu, pam a sut?

Rydym wedi ymgysylltu â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ynglŷn â'r cynnig i wneud yr Athrofa'n ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Hefyd, rydym wedi cynnal trafodaethau gyda Chadeirydd yr Athrofa a Phrif Weithredwr y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

28. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

Nid yw'r dystiolaeth wedi effeithio'n uniongyrchol ar y cynnig. Mae Adran 41 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Athrofa hyrwyddo cyfle cyfartal mewn dysgu Cymraeg i ddysgwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Hefyd, bydd y ddyletswydd newydd hon yn adeiladu ar y gwaith a wneir ar hyn o bryd gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol trwy gyfrwng ei Strategaeth Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Gwrth-hiliaeth.

Wrth ddatblygu cynigion ar gyfer yr Athrofa, y bwriad bob amser oedd y byddai'r corff newydd yn ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Mae'r ddyletswydd o dan Adran 41 o'r Ddeddf yn adlewyrchu pa mor bwysig yw cael sector Dysgu Cymraeg sy'n diwallu'r gwahanol anghenion sydd gan bobl dros oedran ysgol gorfodol, yn cynnwys pobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

Bydd Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn cynnig fframwaith hirdymor a fydd yn cynorthwyo'r Athrofa i wneud penderfyniadau da, gan sicrhau y bydd yr effeithiau posibl a gaiff ei phenderfyniadau ar wahanol unigolion a chymunedau yn cael eu pennu a'u hystyried yn briodol fel rhan o'r broses benderfynu. Hefyd, bydd yn ofynnol i'r Athrofa fonitro'r effaith a gaiff ei gweithgareddau a'i phenderfyniadau.

29. Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?

Disgwylir i'r cynnig gael effaith gadarnhaol. Ysgogir y cynnig gan ein huchelgais i sicrhau bod y ddarpariaeth Dysgu Cymraeg yn diwallu anghenion gwahanol bobl, yn cynnwys pobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Gan fod rhyw yn nodwedd warchodedig, bydd angen i'r Athrofa ystyried y modd mae ei phenderfyniadau, ei pholisïau a'i harferion yn effeithio ar bobl o wahanol gefndiroedd ethnig. Dylai hynny gynorthwyo'r Athrofa i wneud penderfyniadau gwell wrth iddi arfer ei swyddogaethau, yn cynnwys y trefniadau a wna ar gyfer galluogi pobl i ddysgu Cymraeg, datblygu'r cwricwlwm ac adnoddau sy'n ategu dysgu. Hefyd, bydd yn sicrhau bod yr Athrofa'n cymryd camau i sicrhau bod llais y dysgwyr a phrofiad bywyd yn llywio penderfyniadau polisi ynglŷn â'i gwaith.

30. Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i wella effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?

Trwy wneud yr Athrofa'n ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, dylid gallu sicrhau na fydd yna unrhyw effeithiau negyddol ar bobl sydd mewn grwpiau gwarchodedig – yn rhinwedd ei natur, bwriad y polisi yw esgor ar effaith gadarnhaol. Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y dyletswyddau penodol a gynhwysir yn Nyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn cael eu hatgyfnerthu trwy gyfrwng ei chytundeb fframwaith gyda'r Athrofa; yn cynnwys cyhoeddi amcanion cydraddoldeb a gwybodaeth am gydymffurfio, yn ogystal â sicrhau bod trefniadau cyflog y corff yn gyfartal i bawb, yn briodol, yn dryloyw, yn cynnig gwerth am arian ac yn gwobrwyo'r staff yn deg am y gwaith a wnânt.

Ymhellach, byddwn yn annog yr Athrofa i adeiladu ar y profiadau a gafwyd a'r gwersi a ddysgwyd yn y sector addysg drydyddol ehangach. Bydd adolygiad ôl-weithredu'r Ddeddf yn ystyried y modd mae'r Ddeddf wedi cynyddu mynediad at ddarpariaeth Dysgu Cymraeg ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

Ailbennu Rhywedd

31. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw'r ffynhonnell? Dylid cynnwys unrhyw ganfyddiadau sydd wedi deillio o waith ymgysylltu.

Darganfu ymchwil gan y *Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol* fod Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wedi helpu awdurdodau i ddeall yn well beth yw anghenion pobl â nodweddion gwarchodedig wrth wneud penderfyniadau. Darganfuwyd bod y penderfyniadau'n cael eu seilio'n fwy ar dystiolaeth, a bod awdurdodau'n defnyddio amcanion cydraddoldeb, asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, cynlluniau gweithredu a phrosesau ymgynghori yn fynych er mwyn sicrhau bod materion cydraddoldeb yn cael eu hystyried wrth ddatblygu polisïau a gwasanaethau.

Fe wnaeth Swyddog Cydraddoldebau'r Llywodraeth (ar y pryd) gomisiynu adolygiad tystiolaeth yn ymwneud ag anghydraddoldeb a'r anfantais gymharol a ddaw i ran pobl drawsryweddol mewn addysg yn y DU.

32. A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?

Ar hyn o bryd, nid oes gennym unrhyw ddata ystadegol ar gyfer y nodwedd warchodedig hon mewn perthynas â Dysgu Cymraeg.

Er bod Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wedi cael effaith gadarnhaol ar brosesau gwneud penderfyniadau awdurdodau cyhoeddus, darganfu ymchwil gan y *Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol* fod effeithiau'r amcanion cydraddoldeb yn anodd eu mesur ac ni fu modd i bob awdurdod gyflwyno tystiolaeth gadarn am y canlyniadau tymor hwy sy'n deillio o'u hamcanion cydraddoldeb. Daethpwyd i'r casgliad bod angen cynnal rhagor o ymchwil er mwyn pennu i ba raddau mae gosod amcanion cydraddoldeb yn gwella canlyniadau grwpiau gwarchodedig yn uniongyrchol.

33. Â phwy ydych chi wedi ymgysylltu, pam a sut?

Rydym wedi ymgysylltu â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ynglŷn â'r cynnig i wneud yr Athrofa'n ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Hefyd, rydym wedi cynnal trafodaethau gyda Chadeirydd yr Athrofa a Phrif Weithredwr y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

34. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

Nid yw'r dystiolaeth wedi effeithio'n uniongyrchol ar y cynnig. Mae Adran 41 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Athrofa hyrwyddo cyfle cyfartal mewn dysgu Cymraeg i ddysgwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Hefyd, bydd y ddyletswydd newydd hon yn adeiladu ar y gwaith a wneir ar hyn o bryd gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol trwy gyfrwng ei Strategaeth Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Gwrth-hiliaeth.

Wrth ddatblygu cynigion ar gyfer yr Athrofa, y bwriad bob amser oedd y byddai'r corff newydd yn ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Mae'r ddyletswydd o dan Adran 41 o'r Ddeddf yn adlewyrchu pa mor bwysig yw cael sector Dysgu Cymraeg sy'n diwallu'r gwahanol anghenion sydd gan bobl dros oedran ysgol gorfodol, yn cynnwys pobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Bydd Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn cynnig fframwaith hirdymor a fydd yn cynorthwyo'r Athrofa i wneud penderfyniadau da, gan sicrhau y bydd yr effeithiau posibl a gaiff ei phenderfyniadau ar wahanol unigolion a chymunedau yn cael eu pennu a'u hystyried yn briodol fel rhan o'r broses benderfynu. Hefyd, bydd yn ofynnol i'r Athrofa fonitro'r effaith a gaiff ei gweithgareddau a'i phenderfyniadau.

35. Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?

Disgwylir i'r cynnig gael effaith gadarnhaol. Ysgogir y cynnig gan ein huchelgais i sicrhau bod y ddarpariaeth Dysgu Cymraeg yn diwallu anghenion gwahanol bobl, yn cynnwys pobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Gan fod ailbennu rhywedd yn nodwedd warchodedig, bydd angen i'r Athrofa ystyried y modd mae

ei phenderfyniadau, ei pholisïau a'i harferion yn effeithio ar bobl â'r nodwedd warchodedig hon. Dylai hynny gynorthwyo'r Athrofa i wneud penderfyniadau gwell wrth iddi arfer ei swyddogaethau, yn cynnwys y trefniadau a wna ar gyfer galluogi pobl i ddysgu Cymraeg, datblygu'r cwricwlwm ac adnoddau sy'n ategu dysgu. Hefyd, bydd yn sicrhau bod yr Athrofa'n cymryd camau i sicrhau bod llais y dysgwyr a phrofiad bywyd yn llywio penderfyniadau polisi ynglŷn â'i gwaith.

36. Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i wella effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?

Trwy wneud yr Athrofa'n ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, dylid gallu sicrhau na fydd yna unrhyw effeithiau negyddol ar bobl sydd mewn grwpiau gwarchodedig – yn rhinwedd ei natur, bwriad y polisi yw esgor ar effaith gadarnhaol. Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y dyletswyddau penodol a gynhwysir yn Nyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn cael eu hatgyfnerthu trwy gyfrwng ei chytundeb fframwaith a'i chytundeb grant gyda'r Athrofa; yn cynnwys cyhoeddi amcanion cydraddoldeb a gwybodaeth am gydymffurfio.

Ymhellach, byddwn yn annog yr Athrofa i adeiladu ar y profiadau a gafwyd a'r gwersi a ddysgwyd yn y sector addysg drydyddol ehangach. Bydd adolygiad ôl-weithredu'r Ddeddf yn ystyried y modd mae'r Ddeddf wedi cynyddu mynediad at ddarpariaeth Dysgu Cymraeg ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

Cyfeiriadedd Rhywiol

37. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw'r ffynhonnell? Cynhwyswch unrhyw ganfyddiadau sydd wedi deillio o waith ymgysylltu.

Nid yw trefniadau cyfredol ar gyfer casglu data gogyfer y ddarpariaeth Dysgu Cymraeg yn cynnwys data am gyfeiriadedd rhywiol.

Darganfu ymchwil gan y *Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol* fod Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wedi helpu awdurdodau i ddeall yn well beth yw anghenion pobl â nodweddion gwarchodedig wrth wneud penderfyniadau. Darganfuwyd bod y penderfyniadau'n cael eu seilio'n fwy ar dystiolaeth, a bod awdurdodau'n defnyddio amcanion cydraddoldeb, asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, cynlluniau gweithredu a phrosesau ymgynghori yn fynych er mwyn sicrhau bod materion cydraddoldeb yn cael eu hystyried wrth ddatblygu polisïau a gwasanaethau.

38. A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?

Ar hyn o bryd, nid oes gennym unrhyw ddata ystadegol ar gyfer y nodwedd warchodedig hon mewn perthynas â Dysgu Cymraeg.

Er bod Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wedi cael effaith gadarnhaol ar brosesau gwneud penderfyniadau, darganfu adroddiad y *Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol* fod effeithiau'r amcanion cydraddoldeb

yn anodd eu mesur ac ni fu modd i bob awdurdod gyflwyno tystiolaeth gadarn am y canlyniadau tymor hwy sy'n deillio o'u hamcanion cydraddoldeb. Daethpwyd i'r casgliad bod angen cynnal rhagor o ymchwil er mwyn pennu i ba raddau mae gosod amcanion cydraddoldeb yn gwella canlyniadau grwpiau gwarchodedig yn uniongyrchol.

39. Â phwy ydych chi wedi ymgysylltu, pam a sut?

Rydym wedi ymgysylltu â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ynglŷn â'r cynnig i wneud yr Athrofa'n ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Hefyd, rydym wedi cynnal trafodaethau gyda Chadeirydd yr Athrofa a Phrif Weithredwr y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

40. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

Nid yw'r dystiolaeth wedi effeithio'n uniongyrchol ar y cynnig. Mae Adran 41 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Athrofa hyrwyddo cyfle cyfartal mewn dysgu Cymraeg i ddysgwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Hefyd, bydd y ddyletswydd newydd hon yn adeiladu ar y gwaith a wneir ar hyn o bryd gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol trwy gyfrwng ei Strategaeth Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Gwrth-hiliaeth.

Wrth ddatblygu cynigion ar gyfer yr Athrofa, y bwriad bob amser oedd y byddai'r corff newydd yn ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Mae'r ddyletswydd o dan Adran 41 o'r Ddeddf yn adlewyrchu pa mor bwysig yw cael sector Dysgu Cymraeg sy'n diwallu'r gwahanol anghenion sydd gan bobl dros oedran ysgol gorfodol, yn cynnwys rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig. Bydd Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn cynnig fframwaith hirdymor a fydd yn cynorthwyo'r Athrofa i wneud penderfyniadau da, gan sicrhau y bydd yr effeithiau posibl a gaiff ei phenderfyniadau ar wahanol unigolion a chymunedau yn cael eu pennu a'u hystyried yn briodol fel rhan o'r broses benderfynu. Hefyd, bydd yn ofynnol i'r Athrofa fonitro'r effaith a gaiff ei gweithgareddau a'i phenderfyniadau.

41. Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?

Disgwylir i'r cynnig gael effaith gadarnhaol. Ysgogir y cynnig gan ein huchelgais i sicrhau bod y ddarpariaeth Dysgu Cymraeg yn diwallu anghenion gwahanol bobl, yn cynnwys pobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Gan fod cyfeiriadedd rhywiol yn nodwedd warchodedig, bydd angen i'r Athrofa ystyried y modd mae ei phenderfyniadau, ei pholisïau a'i harferion yn effeithio ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd warchodedig hon. Dylai hynny gynorthwyo'r Athrofa i wneud penderfyniadau gwell wrth iddi arfer ei swyddogaethau, yn cynnwys y trefniadau a wna ar gyfer galluogi pobl i ddysgu Cymraeg. Hefyd, bydd yn sicrhau bod yr Athrofa'n cymryd camau i sicrhau bod llais y dysgwyr a phrofiad bywyd yn llywio penderfyniadau polisi ynglŷn â'i gwaith.

42. Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i wella effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?

Trwy wneud yr Athrofa'n ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, dylid gallu sicrhau na fydd yna unrhyw effeithiau negyddol ar bobl sydd mewn grwpiau gwarchodedig – yn rhinwedd ei natur, bwriad y polisi yw esgor ar effaith gadarnhaol. Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y dyletswyddau penodol a gynhwysir yn Nyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn cael eu hatgyfnerthu trwy gyfrwng ei chytundeb fframwaith a'i chytundeb grant gyda'r Athrofa; yn cynnwys cyhoeddi amcanion cydraddoldeb a gwybodaeth am gydymffurfio.

Ymhellach, byddwn yn annog yr Athrofa i adeiladu ar y profiadau a gafwyd a'r gwersi a ddysgwyd yn y sector addysg drydyddol ehangach. Bydd adolygiad ôl-weithredu'r Ddeddf yn ystyried y modd mae'r Ddeddf wedi cynyddu mynediad at ddarpariaeth Dysgu Cymraeg ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

Beichiogrwydd a Mamolaeth

43. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw'r ffynhonnell? Dylid cynnwys unrhyw ganfyddiadau sydd wedi deillio o waith ymgysylltu.

Nid yw trefniadau cyfredol ar gyfer casglu data gogyfer y ddarpariaeth Dysgu Cymraeg yn cynnwys data am feichiogrwydd a mamolaeth.

Darganfu ymchwil gan y *Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol* fod Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wedi helpu awdurdodau i ddeall yn well beth yw anghenion pobl â nodweddion gwarchodedig wrth wneud penderfyniadau. Darganfuwyd bod y penderfyniadau'n cael eu seilio'n fwy ar dystiolaeth, a bod awdurdodau'n defnyddio amcanion cydraddoldeb, asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, cynlluniau gweithredu a phrosesau ymgynghori yn fynych er mwyn sicrhau bod materion cydraddoldeb yn cael eu hystyried wrth ddatblygu polisïau a gwasanaethau.

44. A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?

Ar hyn o bryd, nid oes gennym unrhyw ddata ystadegol ar gyfer y nodwedd warchodedig hon mewn perthynas â Dysgu Cymraeg.

Gan fod yr Athrofa'n gorff newydd, nid oes gwybodaeth ar gael ar hyn o bryd am y nodwedd warchodedig hon mewn perthynas â gweithwyr.

Er bod adroddiad y *Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol* wedi darganfod bod Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wedi cael effaith gadarnhaol ar brosesau gwneud penderfyniadau, yn aml roedd effeithiau'r amcanion cydraddoldeb yn anodd eu mesur ac ni fu modd i bob awdurdod gyflwyno tystiolaeth gadarn am y canlyniadau tymor hwy sy'n deillio o'u hamcanion cydraddoldeb. Daethpwyd i'r casgliad bod angen cynnal rhagor o ymchwil er mwyn pennu i ba raddau mae gosod amcanion cydraddoldeb yn gwella canlyniadau grwpiau gwarchodedig yn uniongyrchol.

45. Â phwy ydych chi wedi ymgysylltu, pam a sut?

Rydym wedi ymgysylltu â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ynglŷn â'r cynnig i wneud yr Athrofa'n ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Hefyd, rydym wedi cynnal trafodaethau gyda Chadeirydd yr Athrofa a Phrif Weithredwr y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

46. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

Nid yw'r dystiolaeth wedi effeithio'n uniongyrchol ar y cynnig. Mae Adran 41 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Athrofa hyrwyddo cyfle cyfartal mewn dysgu Cymraeg i ddysgwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Hefyd, bydd y ddyletswydd newydd hon yn adeiladu ar y gwaith a wneir ar hyn o bryd gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol trwy gyfrwng ei Strategaeth Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Gwrth-hiliaeth.

Wrth ddatblygu cynigion ar gyfer yr Athrofa, y bwriad bob amser oedd y byddai'r corff newydd yn ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Mae'r ddyletswydd o dan Adran 41 o'r Ddeddf yn adlewyrchu pa mor bwysig yw cael sector Dysgu Cymraeg sy'n diwallu'r gwahanol anghenion sydd gan bobl dros oedran ysgol gorfodol, yn cynnwys rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig.

Bydd Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn cynnig fframwaith hirdymor a fydd yn cynorthwyo'r Athrofa i wneud penderfyniadau da, gan sicrhau y bydd yr effeithiau posibl a gaiff ei phenderfyniadau ar wahanol unigolion a chymunedau yn cael eu pennu a'u hystyried yn briodol fel rhan o'r broses benderfynu. Hefyd, bydd yn ofynnol i'r Athrofa fonitro'r effaith a gaiff ei gweithgareddau a'i phenderfyniadau.

47. Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?

Disgwylir i'r cynnig gael effaith gadarnhaol. Ysgogir y cynnig gan ein huchelgais i sicrhau bod y ddarpariaeth Dysgu Cymraeg yn diwallu anghenion gwahanol bobl, yn cynnwys y rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig. Gan fod beichiogrwydd a mamolaeth yn nodwedd warchodedig, bydd angen i'r Athrofa ystyried y modd mae ei phenderfyniadau, ei pholisïau a'i harferion yn effeithio ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd warchodedig hon.

Dylai hynny gynorthwyo'r Athrofa i wneud penderfyniadau gwell wrth iddi arfer ei swyddogaethau, yn cynnwys y trefniadau a wna ar gyfer galluogi pobl i ddysgu Cymraeg. Hefyd, bydd yn sicrhau bod yr Athrofa'n cymryd camau i sicrhau bod llais y dysgwyr a phrofiad bywyd yn llywio penderfyniadau polisi ynglŷn â'i gwaith.

48. Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i wella effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?

Trwy wneud yr Athrofa'n ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, dylid gallu sicrhau na fydd yna unrhyw effeithiau negyddol ar bobl

sydd mewn grwpiau gwarchodedig – yn rhinwedd ei natur, bwriad y polisi yw esgor ar effaith gadarnhaol. Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y dyletswyddau penodol a gynhwysir yn Nyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn cael eu hatgyfnerthu trwy gyfrwng ei chytundeb fframwaith a'i chytundeb grant gyda'r Athrofa; yn cynnwys cyhoeddi amcanion cydraddoldeb a gwybodaeth am gydymffurfio.

Ymhellach, byddwn yn annog yr Athrofa i adeiladu ar y profiadau a gafwyd a'r gwersi a ddysgwyd yn y sector addysg drydyddol ehangach. Bydd adolygiad ôl-weithredu'r Ddeddf yn ystyried y modd mae'r Ddeddf wedi cynyddu mynediad at ddarpariaeth Dysgu Cymraeg ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

Priodas a Phartneriaeth Sifil

49. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw'r ffynhonnell? Dylid cynnwys unrhyw ganfyddiadau sydd wedi deillio o waith ymgysylltu.

Nid yw trefniadau cyfredol ar gyfer casglu data gogyfer y ddarpariaeth Dysgu Cymraeg yn cynnwys data am briodas a phartneriaethau sifil.

Darganfu ymchwil gan y *Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol* fod Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wedi helpu awdurdodau i ddeall yn well beth yw anghenion pobl â nodweddion gwarchodedig wrth wneud penderfyniadau. Darganfuwyd bod y penderfyniadau'n cael eu seilio'n fwy ar dystiolaeth, a bod awdurdodau'n defnyddio amcanion cydraddoldeb, asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, cynlluniau gweithredu a phrosesau ymgynghori yn fynych er mwyn sicrhau bod materion cydraddoldeb yn cael eu hystyried wrth ddatblygu polisïau a gwasanaethau.

50. A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?

Ar hyn o bryd, nid oes gennym unrhyw ddata ystadegol ar gyfer y nodwedd warchodedig hon mewn perthynas â Dysgu Cymraeg. Gan fod yr Athrofa'n gorff newydd, nid oes gwybodaeth ar gael ar hyn o bryd am y nodwedd warchodedig hon mewn perthynas â gweithwyr.

Er bod adroddiad y *Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol* wedi darganfod bod Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wedi cael effaith gadarnhaol ar brosesau gwneud penderfyniadau, yn aml roedd effeithiau'r amcanion cydraddoldeb yn anodd eu mesur ac ni fu modd i bob awdurdod gyflwyno tystiolaeth gadarn am y canlyniadau tymor hwy sy'n deillio o'u hamcanion cydraddoldeb. Daethpwyd i'r casgliad bod angen cynnal rhagor o ymchwil er mwyn pennu i ba raddau mae gosod amcanion cydraddoldeb yn gwella canlyniadau grwpiau gwarchodedig yn uniongyrchol.

51. Â phwy ydych chi wedi ymgysylltu, pam a sut?

Rydym wedi ymgysylltu â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ynglŷn â'r cynnig i wneud yr Athrofa'n ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector

Cyhoeddus. Hefyd, rydym wedi cynnal trafodaethau gyda Chadeirydd yr Athrofa a Phrif Weithredwr y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

52. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

Nid yw'r dystiolaeth wedi effeithio'n uniongyrchol ar y cynnig. Mae Adran 41 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Athrofa hyrwyddo cyfle cyfartal mewn dysgu Cymraeg i ddysgwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Hefyd, bydd y ddyletswydd newydd hon yn adeiladu ar y gwaith a wneir ar hyn o bryd gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol trwy gyfrwng ei Strategaeth Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Gwrth-hiliaeth.

Wrth ddatblygu cynigion ar gyfer yr Athrofa, y bwriad bob amser oedd y byddai'r corff newydd yn ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Mae'r ddyletswydd o dan Adran 41 o'r Ddeddf yn adlewyrchu pa mor bwysig yw cael sector Dysgu Cymraeg sy'n diwallu'r gwahanol anghenion sydd gan bobl dros oedran ysgol gorfodol, yn cynnwys rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig. Bydd Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn cynnig fframwaith hirdymor a fydd yn cynorthwyo'r Athrofa i wneud penderfyniadau da, gan sicrhau y bydd yr effeithiau posibl a gaiff ei phenderfyniadau ar wahanol unigolion a chymunedau yn cael eu pennu a'u hystyried yn briodol fel rhan o'r broses benderfynu. Hefyd, bydd yn ofynnol i'r Athrofa fonitro'r effaith a gaiff ei gweithgareddau a'i phenderfyniadau.

53. Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?

Disgwylir i'r cynnig gael effaith gadarnhaol. Ysgogir y cynnig gan ein huchelgais i sicrhau bod y ddarpariaeth Dysgu Cymraeg yn diwallu anghenion gwahanol bobl, yn cynnwys y rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig. Gan fod priodas a phartneriaeth sifil yn nodwedd warchodedig, bydd angen i'r Athrofa ystyried y modd mae ei phenderfyniadau, ei pholisïau a'i harferion yn effeithio ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd warchodedig hon. Dylai hynny gynorthwyo'r Athrofa i wneud penderfyniadau gwell wrth iddi arfer ei swyddogaethau, yn cynnwys y trefniadau a wna ar gyfer galluogi pobl i ddysgu Cymraeg.

54. Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i wella effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?

Trwy wneud yr Athrofa'n ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, dylid gallu sicrhau na fydd yna unrhyw effeithiau negyddol ar bobl sydd mewn grwpiau gwarchodedig – yn rhinwedd ei natur, bwriad y polisi yw esgor ar effaith gadarnhaol. Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y dyletswyddau penodol a gynhwysir yn Nyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn cael eu hatgyfnerthu trwy gyfrwng ei chytundeb fframwaith a'i chytundeb grant gyda'r Athrofa; yn cynnwys cyhoeddi amcanion cydraddoldeb a gwybodaeth am gydymffurfio.

C. Cyhoeddi a Monitro

1. **A yw'r Asesiad hwn o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn barod i'w gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru?**
   Yes

2. **Os na allwch gyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, esboniwch pam.**
   Amherthnasol

3. **A yw'r Asesiad hwn o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ddiweddariad o fersiwn a gyhoeddwyd yn flaenorol?**
   Na

4. **Sut byddwch yn monitro ac yn gwerthuso cynnydd ar y materion cydraddoldeb a nodir yn yr Asesiad hwn o'r Effaith ar Gydraddoldeb?**
   Bydd hyn yn cael ei ystyried fel rhan o adolygiad ôl-weithredu Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025, a bennir yn Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Ddeddf. Yn yr adolygiad ôl-weithredu, ystyrir y modd mae'r Ddeddf wedi cynyddu mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg ymhlith pob dysgwr yn ogystal â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol (yn cynnwys rhai â nodweddion gwarchodedig).

   Er mwyn cydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, ymhlith pethau eraill bydd angen i'r Athrofa gyhoeddi cynllun cydraddoldeb strategol, ynghyd ag adroddiad blynyddol bob blwyddyn. Byddwn yn monitro ac yn gwerthuso'r cynnydd trwy gyfrwng yr adroddiad blynyddol. Hefyd, byddwn yn cyhoeddi targedau cydraddoldeb penodol mewn cytundebau grantiau a byddwn yn monitro'r rhain trwy gyfrwng yr adroddiad blynyddol a thrwy gynnal cyfarfodydd monitro rheolaidd gyda'r Athrofa.

D. Awdurdodiad

Datganiad gan y Cyfarwyddwr / Uwch-swyddog Cyfrifol:
Rwy'n fodlon bod effaith y cynnig wedi cael ei hasesu a'i chofnodi'n briodol yn unol â'r canllawiau, a bod y gofynion cyhoeddi wedi cael eu hystyried yn briodol.

Llofnod:



Adran: Cyfarwyddiaeth y Gymraeg/Welsh Language Directorate

Dyddiad: 21 Hydref 2026